# Cadeirydd / Is-gadeirydd

## Cymwyseddau

| | |
|---|---|
| a. | Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth weithredol o'r Rheolau a Gweithdrefnau |
| b. | Arwain, rheoli a chydlynu gwaith y pwyllgor |
| c. | Cynnal safonau ymddygiad a safonau moesegol |
| ch. | Adnabod pwyntiau amlwg a chrynhoi'n effeithiol |
| d. | Gweithredu fel siaradwr a chynrychiolydd o'r Pwyllgor |
| dd. | Sicrhau bod amcanion y Pwyllgor yn cael eu bodloni gyda chanlyniadau clir |
| e. | Cyfathrebu mewn modd clir a chryno |
| f. | Bod ag awdurdod i gynnal disgyblaeth heb fod yn ormesol |

| **Mae Cadeirydd/Is-gadeirydd effeithiol yng Nghyngor Gwynedd:** | **Mae Cadeirydd/Is-gadeirydd aneffeithiol yng Nghyngor Gwynedd:** |
|---|---|
| • Yn ymddwyn yn dryloyw, cyson ac mewn ffordd ddiduedd<br>• Yn sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn deall yr argymhellion a'r penderfyniadau sydd wedi'u gwneud<br>• Yn arwain trafodaethau mewn modd teg a chytbwys ac yn rhoi cyfle i bawb siarad<br>• Yn sicrhau fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â pholisi iaith Cyngor Gwynedd<br>• Yn cydnabod a bod yn ystyriol o unrhyw broblemau, megis oedi gyda chyfieithu, neu anawsterau eraill y gallai unigolion eu profi<br>• Yn cynnal ffocws y pwyllgor a chadw rheolaeth dynn ar y rhaglen<br>• Yn sicrhau y rhoddir sylw teg i faterion ar y Rhaglen o fewn amserlen resymol<br>• Yn sicrhau bod safonau ymddygiad a safonau moesegol yn cael eu cynnal mewn cyfarfodydd<br>• Yn sicrhau bod y pwyllgor yn gweithredu'n gyfreithiol ac yn gyfansoddiadol o fewn fframwaith polisi'r Cyngor<br>• Yn cyfrannu at gynllunio rhaglen waith y pwyllgor a rhaglenni'r cyfarfodydd<br>• Yn crynhoi'r prif bwyntiau ac yn hwyluso'r broses o ysgrifennu cofnodion clir o gyfarfodydd<br>• Yn cynnal perthynas weithio da gyda chyd-aelodau a swyddogion<br>• Yn deall deinameg a phrosesau'r grŵp<br>• Yn 'gadarn ond yn deg' ac nid yw'n caniatáu i unrhyw berson ormesu<br>• Yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygiad personol ac yn mynychu hyfforddiant perthnasol yn ei rôl fel Cadeirydd<br>• Yn adnabod pwysigrwydd mynychu cyfarfodydd<br>• Yn sicrhau y dilynir prosesau cyfansoddiadol wrth wneud penderfyniadau<br>• Paratoi ar gyfer y cyfarfod a deall eitemau'r Rhaglen | • Yn dangos neu'n mynegi ffafriaeth neu duedd<br>• Yn caniatáu i'r broses fynd yn afreolus<br>• Yn peidio â mynychu cyfarfodydd<br>• Yn caniatáu i'r cyfarfod fynd dros amser heb reswm digonol<br>• Yn peidio â rhoi sylw priodol i eitemau ar y rhaglen ac amcanion y pwyllgor<br>• Yn caniatáu i gyfarfodydd grwydro oddi ar y testun/ colli ffocws<br>• Yn lleisio barn bersonol ac yn cymryd rhan yn y drafodaeth<br>• Yn caniatáu ymddygiad bygythiol<br>• Yn rhoi materion i bleidlais cyn sefydlu dealltwriaeth ac eglurhad o'r argymhellion<br>• Yn defnyddio'r rôl neu gyfle i hyrwyddo ei hun<br>• Yn peidio â chrynhoi'r drafodaeth<br>• Yn peidio â chydweithredu neu hyrwyddo cydweithredu gyda chyd-aelodau a swyddogion<br>• Yn peidio ag ystyried teimlad neu ddeinameg y grŵp<br>• Yn caniatáu i Aelodau neu garfan i ormesu<br>• Yn peidio â dilyn y broses gyfansoddiadol i wneud penderfyniadau<br>• Yn peidio ag adolygu ei berfformiad ei hun ac yn adnabod anghenion datblygu<br>• Yn peidio â thrafod materion gyda swyddogion er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfod a deall y Rhaglen<br>• Diystyru cyngor cyfreithiol |